

Tasg 2

Darn personol

Mae'r darn ar y sgrin yn ddarn personol gan Jo.

Ymson – *soliloquy* neu *monologue* ydy e.

Beth ydy ymson?

- Mae'n bersonol: mae'n defnyddio **dw i, roeddwn i, roedden ni, fi, a ni.**
- Mae'r person yn ysgrifennu yn y presennol.
- Weithiau, mae'r person yn ysgrifennu am y gorffennol hefyd – a'r dyfodol efallai.
- Mae llawer o deimlad ac emosiwn mewn ymson.
- Mae rhai ymsonau'n creu awyrgylch.
- Yn aml, mae cwestiynau ac ebychiadau mewn ymson.

1. Chwiliwch am enghreifftiau o'r uchod yn y darn a llenwch y grid ar y dudalen nesaf.

Geirfa

darn	piece, passage	dyfodol	future
presennol	present	creu awyrgylch	(to) create an atmosphere
gorffennol	past	ebychiadau	exclamations



Ymson

<ul style="list-style-type: none">• defnyddio'r person cyntaf (fi / ni)	
<ul style="list-style-type: none">• ysgrifennu am y presennol	
<ul style="list-style-type: none">• ysgrifennu am y gorffennol	
<ul style="list-style-type: none">• teimlad ac emosiwn	
<ul style="list-style-type: none">• awyrgylch	
<ul style="list-style-type: none">• cwestiynau ac ebychiadau	

Geirfa

awyrgylch	atmosphere	ebychiadau	exclamations
-----------	------------	------------	--------------

2. Ysgrifennwch ymson am **Y Daith**.

Defnyddiwch y pwyntiau bwled (tudalen 2) i'ch helpu chi.

Cynlluniwch eich gwaith yn ofalus.

Dyma ychydig o help i chi:

- Taith – o ble i ble?
- Pam rydych chi ar y daith?
- Gyda / Efo pwy?
- Beth sy'n digwydd?
- Meddyliwch am y gorffennol neu'r dyfodol.
- Disgrifiadau / awyrgylch.
- Sut ydych chi'n teimlo?
- Cofiwch ddefnyddio cwestiynau ac ebychiadau.

